

CYFRIFEG A CHYLLID.

Amser - naw deg munud

**DYLECH ATEB DAU GWESTIWN YN UNIG o blith y pedwar;
mae'r holl gwestiynau yn gyfwerth eu marciau.**

Dangoswch yn glir sut y daethoch i'ch atebion.

Datganwch unrhyw ragdybiaethau a wnewch, a'u hesbonio.

Cewch ddefnyddio cyfrifiannell nad oes modd ei rhaglennu.

CWESTIWN 1

Atebwch **BOB** Rhan

Dyma grynodeb o ddatganiadau ariannol Ryan Air Holdings ccc am y blynyddoedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 a 2015.

Datganiad o incwm am y blynyddoedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth	2016	2015
	M Ewro	M Ewro
Trosiant	6,536	5,654
Costau gweithredu	-5,076	-4,611
Elw/colled weithredol	1,460	1,043
Eitem eithriadol	318	-
Costau cyllid	-74	-78
Incwm cyllid	18	18
Elw/colled ar weithgareddau arferol cyn treth	1,722	983
Treth ar elw gweithgareddau arferol	-163	-116
Elw/colled ar weithgareddau arferol ar ôl treth	1,559	867
Mantolen ar 31 Mawrth	2016	2015
	M Ewro	M Ewro
Asedau anghyfredol	6,397	6,444
Asedau cyfredol		
Stocrestrau	3	2
Dyledwyr	66	60
Arall	432	890
Arian parod	4,321	4,789
	4,822	5,741
Rhwymedigaethau cyfredol		
Credydwyr masnach	231	197
Rhwymedigaethau eraill	3,139	3,149
	3,370	3,346
Rhwymedigaethau anghyfredol	4,252	4,804
Asedau net	3,597	4,035
Cronfeydd cyfranddalwyr ecwitiol	3,597	4,035

Rhagor o wybodaeth:

	2016	2015
Cyfranddaliadau awdurdodedig (Miliynau)	1,341	1,384.7
Difidend a Dalwyd (M Ewro)	398	520

Mae angen:

- a. O'r wybodaeth uchod, cyfrifo'r cymarebau ariannol sydd, yn eich barn chi, fwyaf priodol i bwysu a mesur sefyllfa ariannol Ryan Air Holdings ccc ar 31 Mawrth 2016 a 2015. Dylech gyfrifo wyth cymhareb o leiaf, gan roi'r fformiwlâu yn amlwg ac yn dangos yr holl waith cyfrifo perthnasol.

(16 marc)

- b. Dehongli canlyniadau'ch gwaith cyfrifo i ran (a) uchod a rhoi eich sylwadau arnynt. Nodwch pa wybodaeth ychwanegol y byddai ei hangen arnoch er mwyn gallu cynnal y dadansoddiad hwnnw yn fanylach.

(8 marc)

- c. Trafod yn gryno beth yw cyfyngiadau dadansoddi cymarebau cyfrifon ariannol.

(6 marc)

CWESTIWN 2

Dyma fantolen brawf Charles Cyf i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/12/2016:

	Dr	Cr
	£'000	£'000
Croniadau		13
Costau gweinyddu	320	
Darpariaeth drwgddyledion		2
Banc	10	
Dibrisio cronedig ar geir hyd at 31/12/2015		4
Ceir yn ôl y gost	20	
Credydwyr		78
Benthyciad o'r banc i'w ad-dalu ar 31/12/2025		70
Cyflogau cynhyrchu	12	
Llog a dalwyd	5	
Tir ac adeiladau yn ôl y prisiad ar 31/12/2015	212	
Dibrisio cronedig ar gyfarpar ac offer hyd at 31/12/2015		20
Cyfarpar ac offer yn ôl y gost	100	
Blaendaliadau	4	
Pryniadau	149	
Elw a gedwir ar 31/12/2015		45
Cronfa ailbriso ar 31/12/2015		2
Gwerthiannau		764
Costau dosbarthu	23	
Cyfalaf cyfranddaliadau (cyfranddaliadau cyffredin £2.00)		110
Stoc ar 31/12/2015	223	
Symiau i'w derbyn o fasnach	30	
	1,108	1,108

Daeth i'r amlwg nad oedd y wybodaeth ychwanegol isod wedi'i chynnwys wrth baratoi'r fantolen brawf hon:

- i. Cyhoeddodd y cwmni 6,000 o gyfranddaliadau newydd am arian parod am £6.00 fesul cyfranddaliad ar 31/12/2016, gan gael y derbyniadau am y cyfan ar yr un diwrnod. Roedd £4.00 o bremiwm cyfranddaliadau wedi'i gynnwys ym mhris y cyfranddaliadau, sef £6.00.
- ii. Ar ôl asesiad terfynol o'r stoc ar 31/12/2016, prisiwyd y stoc ar isafswm y gost a'r gwerth gwireddadwy net ar £225,000.
- iii. Darparwyd ar gyfer dibrisio ar gyfarpar ac offer i ddiddymu'r gost ar sail llinell syth dros 10 mlynedd. Rhoddir y dibrisiad hwn i gost y gwerthiannau. Gallwch dybio nad oes gan yr offer ddim gwerth gweddilliol, ac nad oedd yr un eitem o gyfarpar nac offer yn hŷn na 9 blwydd oed ar 1/1/2016.

- iv. Darparwyd ar gyfer dibrisio ar geir i ddiddymu'r gost ar sail llinell syth dros 5 mlynedd. Rhoddir y dibrisiad hwn i'r costau dosbarthu. Gallwch dybio nad oes gan y ceir ddim gwerth gweddilliol, ac nad oedd unrhyw un o'r ceir yn hŷn na 4 blwydd oed ar 1/1/2016.
- v. Y bil nwy misol diweddaraf, am £500, a gafodd ei gynnwys yn y treuliau gweinyddol oedd yr un am fis Awst 2016.
- vi. Ar 31/12/2016 cymerodd y cwmni fenthyciad dyledebau ychwanegol am £50,000 i'w ad-dalu ar 31/12/2040, ac fe ad-dalodd y cwmni fenthyciad dyledebau a oedd yn ddyledus, sef £40,000.
- vii. Amcangyfrifir mai £72,000 fydd y dreth a godir am y flwyddyn.

Mae angen

- a. Defnyddio cyfrifon cofnodi dwbl i gofnodi effeithiau'r eitemau i) i vii) uchod.
(12 marc)
- b. Paratoi datganiad incwm i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/12/2016, ynghyd â mantolen i'r dyddiad hwnnw, gan ymgorffori'r wybodaeth a roddwyd yn y fantolen brawf ynghyd ag effeithiau'r eitemau i) i vii).
(18 marc)

CWESTIWN 3

Dechreuwyd busnes Freddy Cyf ar 1 Ionawr 2016 a daeth ei flwyddyn i ben ar 31 Rhagfyr 2016. Dyma drafodion Freddy Cyf yn ystod y flwyddyn.

- i. Cafodd Freddy Cyf gronfeydd am gyfalaf cyfranddaliadau, sef £50,000 ar 1 Ionawr 2016
- ii. Rhoddodd Mr. Jones fenthyg £50,000 i'r cwmni yn dechrau ar 1 Ionawr 2016, am 10% y flwyddyn. Byddai'r llog yn cael ei dalu bob yn chwe mis, sef ar 1 Gorffennaf 2016 a 1 Ionawr 2017.
- iii. Talodd Freddy Cyf £1,000 mewn arian parod am hysbysebu yn 'The Aber News' ar 1 Mawrth 2016.
- iv. Yn ystod y flwyddyn prynodd Freddy Cyf gyfanswm o 20,000 uned o ddeunydd am £4 fesul uned mewn arian parod. Roedd angen pedair uned i gynhyrchu un eitem o nwyddau gorffenedig. Defnyddiodd Freddy Cyf bob un o'r unedau hyn i gynhyrchu 5,000 uned o nwyddau gorffenedig erbyn 31 Rhagfyr 2016.
- v. Talwyd cyfanswm o £5,000 mewn arian parod am gostau'r gwres a'r goleuadau am y flwyddyn
- vi. Amcangyfrifwyd y byddai gwerth £5,000 o gostau gwres a goleuadau ychwanegol yn cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn, ond ni thalwyd amdanynt erbyn 31 Rhagfyr 2016
- vii. Gwerthwyd 2,500 o unedau o'r nwyddau gorffenedig i gwsmeriaid am £50 yr un ar sail credyd
- viii. Erbyn 31 Rhagfyr 2016 roedd Freddy Cyf wedi cael £100,000 mewn arian parod am werthu'r nwyddau gorffenedig yn (vii) uchod.
- ix. Gwerthwyd 500 ychwanegol o nwyddau gorffenedig i gwsmeriaid am £60 yr un fel gwerthiannau arian parod.
- x. Talwyd rhent ar yr eiddo, sef £60,000, yn llawn am ddwy flynedd ar 1 Ionawr 2016.
- xi. Talwyd y cyflogau i'r cyfnod o fis Ionawr i fis Tachwedd, sef £44,000 ond roedd costau cyflogres mis Rhagfyr, sef £4,000, heb eu talu
- xii. Prynwyd car newydd am £9,000 o arian parod ar 1 Ionawr 2016 a'r disgwyl yw y bydd yn para am 3 blynedd. Mae Freddy Cyf yn rhagdybio dim gwerth gweddilliol ac mae'r cwmni'n defnyddio'r dull llinell syth o ddibrisio.
- xiii. Ar ddiwedd y flwyddyn cynhaliwyd arolwg o'r stoc. Yn yr arolwg hwnnw cafwyd bod 2,000 uned o stoc orffenedig wedi'u prisiau ar £18 fesul uned.

Mae angen:

a) Cyflwyno'r trafodion uchod ar ffurf cyfrifon T.

(17 marc)

b) Paratoi mantolen brawf i Freddy Cyf i'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2016.

(13 marc)

CWESTIWN 4

I ateb cwestiwn 4, dylech roi cynnig ar DDWY o'r rhannau isod (15 marc sydd ar gael i bob un, sef cyfanswm o 30 marc):

- i) Mae gan Freddy Cyf ddigon o gronfeydd i ystyried cyflogi naill ai cyfrifydd ariannol neu gyfrifydd rheoli, ond nid y ddau.
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddwy swydd, ac os oes un sy'n bwysicach na'r llall, p'un yw honno? **(15 marc)**
- ii) 'Mae adroddiad yr Archwiliwr, sydd i'w gael yn adroddiad blynyddol y cwmni, wedi'i gyfeirio at 'aelodau', felly at eu defnydd hwy yn unig y mae, mae'n rhaid?'
- a. Pwy yw'r 'aelodau'? **(1 marc)**
- b. Rhestrwch y saith grŵp o ddefnyddwyr a gydnabyddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifeg Rhyngwladol (IASB) **(4 marc)**
- c. O'ch rhestr uchod disgrifiwch sut y byddai PUMP o'r grwpiau o ddefnyddwyr yn defnyddio'r adroddiad blynyddol, a thrafodwch y gwrthdaro posibl rhwng y defnyddwyr hyn a'r amcanion y tu ôl i gynhyrchu adroddiadau blynyddol. **(10 marc)**
(cyfanswm o 15 marc)
- iii) 'Mae mantolen brawf bob amser yn tafoli; ac felly mae'r datganiadau ariannol yn gorfod bod yn gywir'
- a. Beth yw mantolen brawf? **(5 marc)**
- b. Trafodwch y datganiad hwn gan roi enghreifftiau rhifiadol lle bo'n briodol **(10 marc)**
(cyfanswm o 15 marc)
- iv) Mae rhai dadansoddwyr ariannol yn credu mai'r llif arian parod yw'r datganiad ariannol pwysicaf.
- a. Rhestrwch y tair prif elfen yn y datganiad o lif arian parod **(3 marc)**
- b. Ydych chi'n cytuno â safbwynt y dadansoddwyr ariannol mai'r datganiad o lif arian parod yw'r un pwysicaf? **(12 marc)**
(cyfanswm o 15 marc)